



Cyfarfod Fforwm Cyswllt
Cynghorau Tref a Chymuned

Nos Fercher, 29 Medi 2021
6.30 yh

Cyfarfod Rhithiol (Zoom)

Rhaglen

1 - Croeso ac Ymddiheuriadau

2 - Cofnodion

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2021 – ynghlwm.

3 - Strategaeth Dai 2022-27

4 – Adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir: diweddariad

5 – Cryfhau gorfodaeth ynghylch defnyddio cychod dŵr hamdden a phersonol yn beryglus (Eitem ar gais CC Llanfairpwll)

Codi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad gyfredol gan yr Adran Drafnidiaeth – gweler y ddolen isod (ar gael yn Saesneg yn unig):

www.gov.uk/government/consultations/strengthening-enforcement-of-the-dangerous-use-of-recreational-and-personal-watercraft

Dyddiad cau / Closing date: 1 Tachwedd / November 2021.

6 – Unrhyw fater arall

Town and Community Councils
Liaison Forum Meeting

Wednesday, 29 September 2021
6.30 pm

Virtual Meeting (Zoom)

Agenda

1 - Welcome and Apologies

2 - Minutes

Confirmation of the minutes of the meeting held on 21 July 2021 – attached.

3 - Housing Strategy 2022-27

4 – Review of the Council's electoral arrangements: update

5 – 'Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft' (Item requested by Llanfairpwll CC)

To raise awareness of the current consultation by the Department for Transport – available on the link below:

6 – Any other business

Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar nos Fercher, 21 Gorffennaf 2021
am 6.30 yh

Presennol:

Cyngorau Tref a Chymuned

Cyng Gordon Warren	Amlwch
Cyng Rhian Jones	Biwmares
Cyng Ann Kennedy	Caergybi
Cyng Eurfryn Davies	Cwm Cadnant
Cyng Brian Potter	Llanbadrig
Cyng Barbara Williams	Llanddona
Cyng Dafydd Griffiths	Llaneilian
Cyng Delyth Owen	Llanfaelog
Cyng Gareth Cemlyn Jones	Llanfairpwll
Cyng Celfyn Furlong	Llanfair yn Neubwll
Cyng Einion Williams	Llanfihangel Ysgeifiog
Cyng John Rogers	Llangristiolus
Sydna Roberts (Clerc)	Llannerch-y-medd
Rhianwen Sheldon (Clerc)	Pentraeth
Cyng Ella Fisk	Porthaethwy
Cyng Keith Roberts	Trearddur
Cyng Bill Rowlands	Trearddur
Cyng Gordon Browne	Y Fali

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Llinos Medi	Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)
Cyng Glyn Haynes	Cadeirydd y Cyngor
Cyng Meirion Jones	Deilydd Portffolio Addysg, Ieuencid, Llyfrgelloedd a Diwylliant
Cyng Alun Mummery	Deilydd Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau
Annwen Morgan	Prif Weithredwr
Marc Jones	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Huw Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Anwen Davies	Rheolwr Sgriwtini
Caron Jones	Swyddog Strategaeth Tai (ar gyfer eitem 6)
Rhian Wyn Jones	Swyddog Polisi

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Cynghorau Tref a Chymuned

Caergybi – Cyng Richard Parry; Robert Henderson (Clerc)

Cwm Cadnant – Cyng Carys Thornton

Llangefni – Cyng Margaret Thomas

Trewalchmai - Cyng Edna Jones; Margaret Price (Clerc)

Cyngor Sir Ynys Môn

Aelodau: Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd);
Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid); Bryan Owen; Gary
Pritchard; Peter Rogers.

Swyddogion: Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr.

1. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020 fel rhai cywir. Cafwyd diweddariad gan yr Arweinydd o ran y gweithredoedd:

Tudalen 2: Toiledau Cyhoeddus – Y Dreth Fusnes (bwriad y Llywodraeth i gyflwyno 100% o ryddhad o gychwyn 2020/21): Dim newid. Nodwyd bod cyflwyno'r cynnig i eithrio toiledau cyhoeddus o dan reolaeth Llywodraeth y DU ond heb ei weithredu oherwydd blaenoraethau eraill (Brexit; Covid). Nid oes dyddiad newydd wedi'i raglennu hyd yn hyn.

Tudalen 4: Cynyddu Ffioedd Parcio – cais am gefnogaeth gan y Cyngor i drosglwyddo maes parcio yn Llanfairpwll i fod yn faes parcio 'tal ac arddangos'. Gwaith ymchwil wedi digwydd a thrafodaethau pellach i'w cynnal gyda'r Cyngor Cymuned.

Tudalen 4: Y Dreth Gyngor / Trethi Busnes (casglu gwastraff) – cais i'r Cyngor adolygu eu trefniadau ar gyfer sicrhau nad yw tai gwyliau sydd wedi'u cofrestru fel busnesau'n derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff domestig (Biwmares): Trefniadau yn eu lle i sicrhau bod casgliadau domestig i'r cyfeiriadau perthnasol yn dod i ben, gyda'r gwasanaeth Adnoddau yn anfon gwybodaeth ymlaen i'r gwasanaeth Gwastraff yn wythnosol.

Tudalen 4: Premiwm y Dreth Gyngor - y nifer o dai sydd wedi newid o eiddo domestig i fusnesau ers cyflwyno'r Premiwm (Llaneilian): Anodd rhoi ffigwr ar faint sydd wedi newid oherwydd y gellir ôl-ddyddio'r newid i flynyddoedd blaenorol. Hefyd, nid yw'r rheswm am y newid yn cael ei gofnodi ar y system gan y gallai eiddo fynd yn syth i'r rhestr trethi busnes heb fod ar restr y Dreth Gyngor. Yr unig wybodaeth y gellir ei rhoi yw'r ffaith fod 725 o dai wedi'u hadnabod ar y rhestr fel Unedau Hunan Arlwyo ym Mawrth 2020 ac erbyn Mawrth 2021 roedd y nifer yma wedi codi i 941.

2. Covid-19

Cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gan y Prif Weithredwr, gyda thrafodaeth i ddilyn. Amlinellir y prif bwyntiau isod:

- Er fod Ynys Môn yn 17fed allan o 22 yng Nghymru o ran niferoedd achosion ar hyn o bryd, mae'r niferoedd yn uchel yn y gogledd a gallai'r sefyllfa ym Môn newid yn sydyn iawn.
- Tîm Argyfwng mewnol wedi bod yn cyfarfod yn ddyddiol ac yn dal i gyfarfod pob pythefnos a chyfarfodydd o'r Tîm Atal (partneriaid rhanbarthol) yn digwydd yn wythnosol.
- Angen parhau i annog pobl i gael brechiad, yn enwedig unigolion yn yr oedran 30-39, lle mae'r niferoedd yn is. Mae'r Cyngor yn trafod opsiynau efo'r Bwrdd Iechyd i geisio sicrhau bod cyfleoedd i gael brechiad mor hwylus â phosibl.
- Pwysig glynu at y negeseuon creiddiol, hy cadw pellter, gwisgo mwgwd, golchi dwylo ac agor ffenestri.
- Cydnabyddiaeth y bydd rhaid byw efo'r feirws am amser maith a nodi pwysigrwydd sicrhau bod y cydweithio effeithiol sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf yn parhau er mwyn cefnogi cymunedau.

Cyfeiriwyd at y tensiynau o fewn cymunedau o ganlyniad i'r nifer uchel o ymwelwyr i'r ardal, yn arbennig problemau o ran parcio a gwersylla dros nos ar draws yr ynys. Eglurwyd bod swyddogion yn ymwybodol o'r achosion ac yn gweithredu o fewn eu gallu i geisio datrys problemau. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor bwerau o ran gorfodaeth oni bai fod y tir o dan ei berchnogaeth. Nodwyd bod y Cyngor hwn a chynghorau eraill yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i adolygu rheoliadau a chyflwyno'r pwerau perthnasol i gynghorau.

Pwysleisiwyd bod angen cymryd camau i ddiogelu staff y Cyngor sydd ar y rheng flaen yn delio â thensiynau cymunedol, yn arbennig wardeiniaid traethau (Llanfaelog).

Gweithred: Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'n edrych i mewn i hyn.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor yn cyhoeddi datganiadau rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog pobl i ymddwyn yn gyfrifol wrth ymweld â'r ynys a gofynnodd am gymorth y cynghorau tref a chymuned i rannu'r negeseon hyn mor eang â phosibl.

Mynegodd cynrychiolwyr y cynghorau cymuned eu gwerthfawrogiad i staff y Cyngor am eu hymdrechion dros y flwyddyn a hanner diwethaf.

4. Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog 151 ar yr ymgynghoriad ar Breimiwm y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd. Eglurwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi nodi ei fwriad i gynyddu'r premiwm i 50% yn 2022/23 a bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i geisio barn trigolion Ynys Môn, perchnogion ail gartrefi a

gweithredwyr llety hunanarlwyo. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 6 Awst 2021 a bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad terfynol ar y premiwm ym mis Medi / Hydref 2021.

Cafwyd trafodaeth ar fanteision cynyddu'r premiwm ynghyd â'r risgiau a berir gan y bwlch o fewn y ddeddfwriaeth sy'n galluogi perchnogion ail gartrefi i drosglwyddo o gofrestr y Dreth Gyngor i'r gofrestr Trethi Busnes. Eglurwyd bod y Cyngor hwn, yn ogystal â chynghorau eraill, wedi bod ers amser yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i dynhau'r rheoliadau a chau y bwlch yma. Cyfeiriwyd hefyd at y datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn nodi eu bwriad i roi sylw i hyn, ac fe nodwyd y byddai unrhyw newidiadau'n debygol o gymryd amser sylweddol i'w cyflwyno.

Annogwyd y cynghorau tref a chymuned i ymateb i'r ymgynghoriad sydd ar gael ar wefan y Cyngor ac yn dod i ben ar 6 Awst 2021.

5. Strategaeth Dai 2022-27

Oherwydd problemau technegol o ran y cyfleuster cyfieithu, penderfynwyd gohirio'r eitem uchod a chynnal cyfarfod arall o'r Fforwm ym mis Medi.

6. UFA – Ffermydd Solar

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith bod nifer o gynghorau wedi mynegi pryderon ynghylch cynlluniau i osod ffermydd solar fel Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol ar draws rhannau o'r ynys ac yn awyddus i ganfod safbwynt y Cyngor Sir. Eglurodd yr Arweinydd bod y Cyngor wedi anfon llythyr yn ddiweddar at Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru sy'n gosod allan pryderon a safbwynt y Cyngor.

Gweithred: Copi o lythyr y Cyngor at y Gweinidog Newid Hinsawdd i'w gylchredeg i'r cynghorau tref a chymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 yh.